

Agenda – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynhadledd drwy Zoom	P Gareth Williams
Dyddiad: Dydd Llun, 29 Tachwedd 2021	Clerc y Pwyllgor 0300 200 6565
Amser: 13.30	SeneddDCC@senedd.cymru

Rhag-gyfarfod anffurfiol (13.00 – 13.30)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

13.30

2 Rhaglen codau cyfraith Cymru a chynigion o ran hygyrchedd cyfraith Cymru: Sesiwn dystiolaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

(13.30 – 14.30)

(Tudalennau 1 – 47)

Mick Antoniw AS, Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

Claire Fife, Cynghorydd Polisi i'r Cwnsler Cyffredinol

Dylan Hughes, y Prif Gwnsler Deddfwriaethol

Dogfennau atodol:

LJC(6)-15-21 – Papur briffio

LJC(6)-15-21 – Papur 1 – Dyfodol cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021–
2026

LJC(6)-15-21 – Papur 2 – Llythyr oddi wrth y Llywydd, 22 Medi 2021

3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

14.30 – 14.35

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol



3.1 SL(6)086 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021

(Tudalennau 48 – 50)

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-15-21 – Papur 3 – Adroddiad drafft

4 Adroddiad Rheol Sefydlog 30B: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Fframweithiau Cyffredin a Dadansoddiad o Fframweithiau 2021

5 munud

(Tudalennau 51 – 138)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-15-21 – Papur 4 – Datganiad ysgrifenedig: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Fframweithiau Cyffredin a Dadansoddiad o Fframweithiau 2021

LJC(6)-15-21 – Papur 5 – Adroddiad: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Fframweithiau Cyffredin [Saesneg yn unig]

LJC(6)-15-21 – Papur 6 – Dadansoddiad o Fframweithiau 2021 [Saesneg yn unig]

5 Papurau i'w nodi

14.40 – 14.45

5.1 Gohebiaeth oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Cyfarfod Gweinidogol pedairochrog ar Fframweithiau Cyffredin

(Tudalennau 139 – 142)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-15-21 – Papur 7 – Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 25 Tachwedd 2021

LJC(6)-15-21 – Papur 8 – Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 19 Tachwedd 2021

5.2 Gohebiaeth oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: SL(6)072 – Rheoliadau Priso ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) 2021

(Tudalennau 143 – 147)

Dogfennau atodol:

LJC(6)–15–21 – Papur 9 – Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 20 Tachwedd 2021

LJC(6)–15–21 – Papur 10 – Llythyr at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 16 Tachwedd 2021

5.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwysu Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd) 2021

(Tudalennau 148 – 150)

Dogfennau atodol:

LJC(6)–15–21 Papur 11 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at Aelodau'r Senedd, 22 Tachwedd 2021

5.4 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir)

(Tudalennau 151 – 152)

Dogfennau atodol:

LJC(6)–15–21 – Papur 12 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 24 Tachwedd 2021

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

14.45

7 Rhaglen codau cyfraith Cymru a chynigion o ran hygyrchedd cyfraith Cymru: Trafod y dystiolaeth

14.45 – 14.55

Dogfennau atodol:

**8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Cyfraith
Lesddaliad (Rhent Tir) – Trafod yr adroddiad drafft**

14.55 – 15.05

(Tudalennau 153 – 174)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-15-21 – Papur 13 – Adroddiad drafft

LJC(6)-15-21 – Papur 14 – Llythyr oddi wrth y Gweinidog Newid Hinsawdd at
y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 22 Tachwedd 2021

LJC(6)-15-21 – Papur 15 – Llythyr oddi wrth y Pwyllgor Llywodraeth Leol a
Thai at y Gweinidog Newid Hinsawdd, 18 Tachwedd 2021

**9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Diogelwch
Adeiladau – Trafod yr adroddiad drafft**

15.05 – 15.15

(Tudalennau 175 – 188)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-15-21 – Papur 16 – Adroddiad drafft

**10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: Bil yr Asiantaeth
Ymchwil a Dyfeisio Blaengar**

15.15 – 15.25

(To Follow)

[Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol – Bil yr Asiantaeth Ymchwil a
Dyfeisio Blaengar](#)

[Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar
gyfer Bil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-15-21 – Papur 17 – Nodyn cyngor cyfreithiol

11 Nodyn briffio ar gytundebau rhyngwladol

15.25 – 15.35

(Tudalennau 189 – 199)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-15-21 – Papur 18 – Nodyn briffio

LJC(6)-15-21 – Papur 19 – Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog, 23 Tachwedd

2021

LJC(6)-15-21 - Papur 20 - Llythyr at y Prif Weinidog, 9 Tachwedd 2021

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyfodol cyfraith Cymru

RHAGLEN AR GYFER 2021-2026



Tudalen y pecyn 28

“A thrwy gyngor a chytundeb y doethion a ddaeth yno, archwiliwyd yr hen gyfreithiau, gadawyd rhai ohonynt i barhau, diwygiwyd eraill, a dilëwyd eraill yn gyfan gwbl, a gosodwyd rhai eraill o’r newydd.”

Llyfr Iorwerth 1240

Cynnwys

- 1** Rhagair gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
- 2** Crynodeb
- 2** Datblygu'r rhaglen
- 3** Y rhaglen
- 4** Dosbarthu cyfraith Cymru
- 4** Cydgrynhoi cyfraith Cymru
- 7** Codeiddio
- 7** Cyfathrebu ac egluro
- 9** Prosiectau eraill
- 9** Adrodd ar y rhaglen

Tudalen y pecyn 30



MICK ANTONIW AS

Y CWNSLER CYFFREDINOL
A GWEINIDOG Y
CYFANSODDIAD

Rhagair

Yn 2019 cymerodd Llywodraeth Cymru a'r Senedd gam pwysig ar ein taith i ddatblygu casgliad o gyfreithiau modern, hygyrch a dwyieithog ar gyfer Cymru drwy basio Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019. O dan y Ddeddf hon rhaid i'r Llywodraeth lunio rhaglen sy'n disgrifio'r camau y bydd yn eu cymryd dros gyfnod o bum mlynedd tuag at y nod o wneud y gyfraith yn fwy hygyrch, yn arbennig drwy gydgrynhoi a chodeiddio'r gyfraith sy'n bodoli.

Pleser o'r mwyaf yw cyflwyno'r rhaglen ar gyfer 2021 i 2026.

Gwyddom nad tasg hawdd sydd o'n blaenau, ac na fydd hyn yn digwydd dros nos, ond rhaid inni gychwyn yn rhywle, a chychwyn fel y bwriadwn barhau. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys tri Bil i gydgrynhoi'r gyfraith (dod â hi ynghyd), ac yn nes ymlaen yn ystod tymor y Senedd hon rwy'n bwriadu diweddarau'r rhaglen i gynnwys Biliau cydgrynhoi pellach. Nid dim ond ymarfer tacluso cyfreithiol yw cydgrynhoi'r gyfraith, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd ym maes cynllunio. Bydd hyn yn dod â manteision ymarferol go iawn drwy wneud cymhwyso'r gyfraith, er enghraifft gweithdrefnau gweinyddol, yn fwy effeithiol ac eglur. Ac yn y bôn mae'n helpu dinasyddion Cymru i ddeall eu hawliau cyfreithiol a'u rhwymedigaethau cyfreithiol.

Yr un mor bwysig yw'r prosiectau ehangach i wella'r ffordd y mae pobl yn cyrchu'r gyfraith, a'u dealltwriaeth ohoni drwy well dulliau cyhoeddi a darparu mwy o ddeunyddiau esboniadol. Bwriad prosiectau fel gwefan Cyfraith Cymru/Law Wales yw helpu pobl i ddod o hyd i'r gyfraith sy'n gymwys iddyn nhw a'u helpu i'w deall.

Rwyf hefyd yn hynod falch y bydd y gwaith hwn yn golygu y bydd mwy o'r gyfraith ar gael yn ddwyieithog. Mae llunio mwy o gyfreithiau yn Gymraeg, yn ogystal â deunyddiau esboniadol ac ategol, yn ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ym maes y gyfraith ac mewn gweinyddiaeth gyhoeddus yng Nghymru.

Crynodeb

1. Bydd y rhaglen gyntaf i wella hygyrchedd cyfraith Cymru yn cynnwys prosiectau i:
 - a. Paratoi tacsonomeg o bynciau cyfraith Cymru.
 - b. Ehangu ymarferoldeb gwefan legislation.gov.uk fel y gall defnyddwyr gyrchu cyfraith Cymru yn ôl pwnc.
 - c. Drafftio Biliau cydgrynhoi i ddod â'r gyfraith ar y pynciau canlynol ynghyd mewn statudau unigol:
 - i. Yr Amgylchedd Hanesyddol;
 - ii. Cynllunio.
 - d. Gweithredu'r is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen i gefnogi'r gwaith o gydgrynhoi'r gyfraith ar yr amgylchedd hanesyddol a chynllunio.
 - e. Paratoi Bil cydgrynhoi i ddileu darpariaethau sydd wedi darfod, wedi dod i ben, neu nad ydynt bellach o ddefnydd ymarferol yng Nghymru.
 - f. Pennu cwmpas meysydd pwnc ychwanegol gyda'r bwriad o nodi o leiaf ddau brosiect cydgrynhoi arall i'w drafftio yn ystod tymor y Senedd hon.
 - g. Sicrhau bod cyfraith Cymru ar gael ar ffurf gyfoes ar wefan legislation.gov.uk, a sicrhau bod modd gweld testunau Cymraeg a Saesneg deddfwriaeth Cymru ochr yn ochr arni.
 - h. Ehangu a gwella gwefan Cyfraith Cymru/Law Wales.
 - i. Nodi cyfleoedd i wella hygyrchedd digidol deddfwriaeth.
 - j. Adolygu'r ffordd y mae'r Llywodraeth yn datblygu deddfwriaeth ddwyieithog.
 - k. Archwilio'r potensial ar gyfer defnyddio dysgu peirianyddol a deallusrwydd artiffisial i wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch.
 - l. Diweddarau canllawiau ar ddrafftio deddfwriaeth, yn ôl yr angen, yn ogystal â llunio a chyhoeddi canllawiau ychwanegol ar y prosesau a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â llunio Biliau cydgrynhoi.

Datblygu'r rhaglen

Tua diwedd 2019 cyhoeddodd y Llywodraeth ymgynghoriad, *Dyfodol Cyfraith Cymru*, a oedd yn nodi'r ffordd y bwriadwn fynd ati i wella hygyrchedd y gyfraith. Roedd yn esbonio bod angen cymryd y camau canlynol ar yr un pryd er mwyn gwneud cynnydd –

- a. **dosbarthu** deddfwriaeth yn ôl pwnc fel bod gennym strwythur ar gyfer gwaith yn y dyfodol a dull i ddefnyddwyr ddod o hyd i deddfwriaeth a'i defnyddio;
- b. **cydgrynhoi'r** gyfraith bresennol: mae hyn yn cymryd llawer o amser ac yn gymhleth, ond bydd yn gwneud y cyfraniad mwyaf arwyddocaol at wneud y gyfraith yn hygyrch;
- c. bydd **codeiddio'r** gyfraith yn cynnal y drefn a sefydlir gennym drwy ddsbarthu a chydgrynhoi;
- d. bydd **egluro a chyfathrebu'r** gyfraith yn arwain at gyhoeddi effeithiol, testunau cyfredol, esboniadau, canllawiau a deunyddiau eglurhaol.

Cymeradwyodd y Senedd uchelgais y Llywodraeth drwy basio Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019. O dan y Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol lunio a gosod rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru.

Rhaid i bob rhaglen wneud darpariaeth i gydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru, cynnal cyfraith wedi'i chodeiddio, hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfraith Cymru, a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Y rhaglen

Rydym wedi ystyried ymrwymadau presennol wrth lunio'r rhaglen – er enghraifft i gydgrynhoi'r gyfraith ar yr amgylchedd hanesyddol, ac i symleiddio a moderneiddio cyfraith gynllunio – ac wedi ceisio nodi prosiectau pellach sy'n bodloni un neu ragor o'r meini prawf a ganlyn:

- a. mae'r prosiect yn ymwneud ag un o feysydd y gyfraith y mae angen ei gydgrynhoi fwyaf am fod y gyfraith yn y maes mor gymhleth;
- b. byddai'r prosiect yn cael effaith sylweddol ar y dinesydd oherwydd natur y gyfraith dan sylw;
- c. mae'r prosiect yn ymarferol o ystyried yr hyn y gellir ei gyflawni yng nghyd-destun blaenoriaethau deddfwriaethol sy'n cystadlu â'i gilydd, yr adnoddau sydd ar gael a'r setliad datganoli presennol;
- d. mae'r prosiect yn amserol neu'n gysylltiedig mewn rhyw ffordd â gwaith disgwylidig y Llywodraeth yn ystod tymor nesaf y Senedd.

Nodir manylion pob prosiect yn y rhaglen isod.

Dosbarthu cyfraith Cymru

Yn y ddogfen *Dyfodol Cyfraith Cymru* (2019), nododd y Llywodraeth ei bwriad i drefnu'r ddeddfwriaeth sy'n gymwys i Gymru yn ôl pwnc, a sefydlu ffordd i ddefnyddwyr ddefnyddio dulliau technolegol i ddod o hyd i ddeddfwriaeth Cymru. Mae dosbarthu'r gyfraith yn y modd hwn yn bwysig yn y lle cyntaf i helpu defnyddwyr i ddod o hyd i ddeddfwriaeth yn haws, ac yn ail, i ddarparu strwythur drefnus ar gyfer gwaith cydgrynhoi a chodeiddio yn y dyfodol.

Yn ystod tymor y Senedd hon byddwn yn:

- adolygu a diwygio'r dactonomeg ddrafft bresennol o bynciau (a luniwyd ac yr ymgynghorwyd arni yn wreiddiol yn 2019) er mwyn canfod pa ddeddfiadau ym meysydd datganoledig y gyfraith a ddylai berthyn i bob haen o'r dactonomeg.
- gweithio gyda'r tîm sy'n gyfrifol am legislation.gov.uk yn yr Archifau Gwladol i ddarparu swyddogaethau ychwanegol ar y safle hwnnw fel y gall defnyddwyr gyrchu cyfraith Cymru yn ôl pwnc.

Cydgrynhoi cyfraith Cymru

Diben cydgrynhoi deddfwriaeth yw diwygio deddfwriaeth sydd wedi dyddio a'i diwygio'n drwm, ac sydd felly'n anrhefnus. Mae'r ddeddfwriaeth ar y rhan fwyaf o bynciau wedi lluosogi dros amser ac mae'r ffaith fod cymaint o Ddeddfau ac Offerynnau ar y pwnc yn aml yn ei gwneud hi'n anodd dod o hyd iddi, heb sôn am ei deall. Mae cydgrynhoi'n golygu dod â'r holl ddeddfwriaeth (sylfaenol fel rheol) ar bwnc penodol, neu'r rhan fwyaf ohoni, ynghyd fel y gellir dod o hyd iddi'n hawdd, a'i gwneud yn haws ei deall a'i chymhwyso drwy foderneiddio ei ffurf a'r modd y'i drafftwyd. Bydd cydgrynhoi yn aml yn dod â nifer o Ddeddfau presennol ar bwnc ynghyd, gan ddiweddarau a chysoni'r darpariaethau i greu un Ddeddf newydd ar y diwedd.

Mae'r Llywodraeth yn bwriadu llunio nifer o Ffiliau cydgrynhoi yn ystod tymor y Senedd hon, er mwyn i Senedd Cymru graffu arnynt; os cânt eu cymeradwyo byddant yn dod yn Ddeddfau Senedd Cymru. Byddwn yn datblygu:

- Bil cydgrynhoi sy'n dod â'r gyfraith ar yr **amgylchedd hanesyddol** ynghyd.

Disgwylir y bydd y Bil hwn yn cydgrynhoi darpariaethau perthnasol o Ddeddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953; Deddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979; Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990; a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.

Mae'r ddeddfwriaeth bresennol wedi mynd yn fwy a mwy astrus yn ystod y blynyddoedd diwethaf oherwydd diwygiadau mynych (sy'n aml yn wahanol ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban), ac mae bellach yn cyflwyno dipyn o her i berchennog heneb gofrestrdig neu adeilad rhestredig, ac yn ddigon â drysu ambell weithiwr cyfreithiol proffesiynol hefyd. Yn ogystal â bod yn anodd eu dilyn, fodd bynnag, mae iaith y statudau weithiau'n hen ffasiwn, ceir rhai darpariaethau sydd wedi darford, ac ar y cyfan, dim ond yn Saesneg y maent ar gael.

Bydd cydgrynhoi'r gyfraith bresennol yn ffurfio corff trefnus o gyfraith ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru. Y nod fydd gwneud y darpariaethau mor hygyrch a dealladwy â phosibl, a bydd y ddeddfwriaeth newydd yn gwbl ddywieithog. Bydd hyn yn arwain at ddeddfwriaeth ar wahân ar gyfer Cymru, heb ddarpariaethau sy'n ymgorffori cyfeiriadau at Loegr a'r Alban.

b. Bil cydgrynhoi sy'n symleiddio ac yn moderneiddio'r gyfraith ym maes **cynllunio**.

Mae'r Bil hwn yn rhan bwysig o welliannau ehangach, mwy hirdymor, sydd eu hangen ar y system gynllunio. Mae angen y Bil ers tro byd, fel y dangoswyd yn glir pan ddaeth adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar Gyfraith Cynllunio yng Nghymru i'r casgliad ei fod yn faes o'r gyfraith sydd angen sylw brys. Tynnodd yr adroddiad sylw at effeithiau niweidiol ac aneffeithlonrwydd diffyg hygyrchedd, diffyg ansawdd a chymhlethdod y gyfraith ar weithrediad y system gynllunio. Derbyniwyd yr angen i gydgrynhoi'r maes hwn o'r gyfraith a chwmpas bwriedig y Bil gan Lywodraeth flaenorol Cymru yn ei hymateb interim i'r Adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Mai 2019¹, a chyhoeddwyd ymateb manwl ym mis Tachwedd 2020 yn amlinellu safbwynt y Llywodraeth ar bob un o'r 192 o argymhellion yn yr Adroddiad².

Bydd y Bil cydgrynhoi yn dod â darpariaethau sy'n ymwneud â chynllunio ynghyd o nifer o Ddeddfau, gan gynnwys Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; Deddf Cynllunio a Digolledu 1991; Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994; Deddf yr Amgylchedd 1995; Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004; Deddf Cynllunio 2008; Deddf Lleoliaeth 2011; a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015.

Bydd symleiddio a chydgrynhoi cyfraith gynllunio drwy'r Bil hwn yn creu system gynllunio fwy effeithlon ac effeithiol sydd wedi'i chynllunio ar gyfer anghenion penodol Cymru. Gwneir hyn drwy greu fframwaith cynllunio sy'n galluogi'r holl randdeiliaid sy'n gweithredu, yn defnyddio neu'n cymryd rhan yn y system i gyrchu a deall y gyfraith sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt. Mae'n bwysig nodi hefyd y bydd yn ei gwneud yn haws i gyrff cyhoeddus a'r sector preifat ddefnyddio'r amrywiaeth o bwerau a dulliau sydd ar gael iddynt drwy ddeddfwriaeth cynllunio defnydd tir i hybu adferiad economaidd sy'n seiliedig ar werthoedd yn dilyn y pandemig.

c. Bil cydgrynhoi sy'n **diddymu neu'n datgymhwyso** darpariaethau deddfwriaethol sydd **wedi darfod, wedi dod i ben, neu nad ydynt bellach o ddefnydd ymarferol yng Nghymru** o bob cwr o'r llyfr statud.

Weithiau gelwir Biliau fel hyn yn Filiau 'diddymu cyfraith statud' ac maent wedi nodweddu deddfwriaeth Senedd y DU o dro i dro; disgwylir y bydd Bil o'r math hwn yn ymddangos yn y rhan fwyaf o raglenni i wella hygyrchedd cyfraith Cymru. Bydd y Bil hwn yn helpu i foderneiddio a symleiddio'r gyfraith. Mae dileu darpariaethau diangen yn helpu i dacluso'r llyfr statud, ac mae diwygio'r darpariaethau hyn fel nad ydynt bellach yn gymwys i Gymru yn helpu i greu eglurder ynghylch pa rannau o'r Statud sy'n gymwys (ac nad ydynt yn gymwys) i Gymru.

Bydd y Llywodraeth yn adolygu'r ddeddfwriaeth bresennol mewn nifer o feysydd er mwyn nodi dau brosiect cydgrynhoi arall i weithio arnynt yn ystod tymor y Senedd hon. Mae'r meysydd posibl ar gyfer eu cydgrynhoi sy'n cael eu hystyried yn cynnwys:

- a. Rhandiroedd;
- b. Rheoliadau Adeiladu;
- c. Cynllunio sylweddau peryglus;
- d. Tai;
- e. Iechyd y cyhoedd.

1 Ymateb dros dro i adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar y Gyfraith Gynllunio yng Nghymru
llyw.cymru/ymateb-dros-dro-i-adroddiad-comisiwn-y-gyfraith-ar-y-gyfraith-cynllunio-yng-nghymru

2 Ymateb manwl i adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar gyfraith cynllunio yng Nghymru
llyw.cymru/ymateb-manwl-i-adroddiad-comisiwn-y-gyfraith-ar-gyfraith-cynllunio-yng-nghymru

Byddwn hefyd yn ystyried y meysydd hynny o'r gyfraith yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd, er mwyn nodi pynciau lle mae'r angen mwyaf i gysoni cyfraith ddomestig a chyfraith yr UE a ddargedwir.

Bydd dau brosiect arall hefyd i ategu'r Biliau i gydgrynhoi cyfraith yr amgylchedd hanesyddol a chynllunio:

- a. disgwylir y bydd angen pecyn o is-ddeddfwriaeth i weithredu Bil yr amgylchedd hanesyddol.

Bwriedir gwneud hyn ar ôl i unrhyw Fil gael ei basio gan y Senedd.

- b. prosiect graddol o gydgrynhoi is-ddeddfwriaeth cynllunio gwlad a thref allweddol.

Mae angen cydgrynhoi rhywfaint o'r ddeddfwriaeth hon oherwydd ei hoed (sy'n golygu bod angen moderneiddio'r iaith a'r fformat), ond hefyd oherwydd nifer y diwygiadau a wnaed iddi dros y blynyddoedd sy'n effeithio ar ei hygyrchedd. Cynhelir dadansoddiad llawnach ar ôl gorffen drafftio'r Bil cydgrynhoi, ond mae'r blaenoriaethau presennol yn cynnwys:

- i. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987;
- ii. Rheoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992;
- iii. Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992;
- iv. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995;
- v. Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) 1999; a
- vi. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012.

Fel rhan o waith tymor y Senedd hon, byddwn hefyd yn ceisio nodi cyfleoedd eraill i gydgrynhoi a diweddarau is-ddeddfwriaeth. Er enghraifft:

- a. ail-wneud a diweddarau'r rheolau ar gyfer cynnal etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

Bydd y prosiect hwn yn cynnwys tynnu'r darpariaethau ar gyfer Cymru allan o Reolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru a Lloegr) 2006 a Rheolau Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau) (Cymru a Lloegr) 2006, a diweddarau'r darpariaethau i adlewyrchu newidiadau a wnaed drwy Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Bydd hyn yn arwain at ddwy eitem o ddeddfwriaeth ddwyieithog, benodol i Gymru, ar gynnal etholiadau lleol yng Nghymru.

- b. llunio 'Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl' yn ddwyieithog cyn yr etholiad cyffredinol i'r Senedd yn 2026.

Ar hyn o bryd mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007, offeryn uniaith Saesneg, yn nodi'r modd y cynhelir yr etholiad a'r ymgyrch etholiadol ac yn cynnwys darpariaeth ar gyfer her gyfreithiol. Fe'i diwygiwyd dro ar ôl tro ac nid oes fersiwn wedi'i diweddarau ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd. Caiff y ddeddfwriaeth hon ei chydgrynhoi a'i hail-wneud yn ddwyieithog cyn etholiad y Senedd.

Codeiddio

Pan fyddwn wedi categoraiddio cyfraith Cymru drwy'r broses ddosbarthu, ac wedi gwneud cynnydd o ran chydgrynhoi rhai o feysydd y gyfraith, mae'n bwysig cadw'r drefn a fydd wedi'i sefydlu. I wneud hyn rydym yn bwriadu codeiddio'r gyfraith. Mae Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn esbonio bod 'codeiddio cyfraith Cymru' yn cynnwys –

- a. mabwysiadu strwythur ar gyfer cyfraith Cymru sy'n gwella ei hygyrchedd;
- b. trefnu a chyhoeddi cyfraith Cymru sydd wedi'i chydgrynhoi yn ôl y strwythur hwnnw.

Yn ymarferol, mae codeiddio yn golygu cyhoeddi'r gyfraith ar bynciau penodol gyda'i gilydd mewn un lle a chymryd camau i ddiogelu strwythur y deddfwriaeth ar bwnc penodol unwaith y bydd wedi'i rhoi mewn trefn. Felly, os oes gennym un Ddeddf ar bwnc penodol, naill ai am ei bod wedi'i chydgrynhoi neu am fod y gyfraith yn y maes hwnnw wedi'i diwygio drwyddi draw, dylem barhau i fod ag un Ddeddf. Os oes bwriad i newid y gyfraith ar y pwnc, dylid gwneud y newid hwnnw drwy ddiwygio'r Ddeddf honno, nid drwy wneud un newydd ochr yn ochr â hi, oni bai bod rheswm da iawn dros beidio â gwneud hynny.

Gan mai hon yw'r rhaglen gyntaf i wella hygyrchedd cyfraith Cymru, nid oes unrhyw fwriad i godeiddio cyfraith Cymru ar unwaith. Wrth i'r prosiectau i ddosbarthu a chydgrynhoi'r gyfraith ddwyn ffrwyth, bydd modd dechrau codeiddio'r gyfraith. Serch hynny, byddwn yn adolygu'r meysydd deddfwriaeth lle'r ydym eisoes wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran datgan y gyfraith ar bwnc (fel gofal cymdeithasol) er mwyn pennu pa waith ychwanegol sydd ei angen i godeiddio'r gyfraith. Caiff y rhaglen ei diweddarau yn ôl yr angen yn ystod tymor y Senedd.

Cyfathrebu ac egluro

Ail-wneud y gyfraith y mae'r prosiectau a nodir uchod, ond mae technegau cyfathrebu modern, ynghyd â disgwyliadau defnyddwyr deddfwriaeth, yn golygu bod y gyfraith ei hun yn cael ei hategu fel mater o drefn gan wybodaeth ychwanegol sy'n helpu i egluro effaith ac ystyr y gyfraith.

Yn ystod tymor y Senedd hon byddwn yn ceisio gwella'r modd y caiff y gyfraith a gwybodaeth am y gyfraith eu cyhoeddi yn rhad ac am ddim. Byddwn yn:

- a. Gweithio gyda'r tîm sy'n gyfrifol am legislation.gov.uk i sicrhau bod Deddfau ac Offerynnau Statudol dwyieithog ar gael ar ffurf gyfoes yn y ddwy iaith.

Ar hyn o bryd dim ond testunau Saesneg y mae'r wefan yn gallu eu diweddarau, ond byddwn yn gweithio gyda hwy i sicrhau bod testunau cyfraith Cymru yn y naill iaith a'r llall yn cynnwys unrhyw ddiwygiadau a wnaed i'r deddfwriaeth ar ôl iddi gael ei gwneud yn wreiddiol.

- b. Ehangu a gwella cynnwys gwefan Cyfraith Cymru/Law Wales yn sylweddol er mwyn creu 'siop un stop' i gyrchu a deall cyfraith Cymru.

Fel rhan o'r gwaith hwn byddwn hefyd yn archwilio'r gwersi a ddaeth i'r amlwg wrth ddeddfu yn ystod pandemig y coronafeirws i wella'r ffordd yr ydym yn egluro'r gyfraith, er enghraifft drwy weithio ochr yn ochr ag arbenigwyr cyfathrebu i gynhyrchu canllawiau penodol a sicrhau eu bod yn cael eu diweddarau wrth i ddeddfwriaeth newid; drwy sicrhau bod fersiynau wedi'u diweddarau o ddeddfwriaeth allweddol (gan gynnwys nodiadau esboniadol) yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog ar-lein; drwy gyhoeddi dogfennau "cwestiwn ac ateb", rhai wedi'u hanelu at grwpiau rhanddeiliaid penodol, gan sicrhau bod negeseuon syml, cyson a chyfreithiol gywir yn cael eu cyfleu.

- c. Archwilio ffyrdd o symud draw o fodel cyhoeddi deddfwriaeth yr 20fed ganrif, sy'n seiliedig ar fersiynau print, i system ddigidol fodern. Bydd hyn yn cynnwys ystyried datrysiadau technolegol ar gyfer gweld a dehongli deddfwriaeth ddwyieithog a symud i ffwrdd o fformat brint, colofn ddeuol Offerynnau Statudol. Rydym yn awyddus i bwysleisio bod deddfwriaeth yn cael ei gwneud yn ddwyieithog yng Nghymru, a bod statws cyfartal i'r naill destun a'r llall.
- d. Datblygu'r ffordd y mae'r Llywodraeth yn llunio deddfwriaeth ddwyieithog, gan ddefnyddio technoleg iaith i'w llawn botensial wrth inni geisio gwella effeithlonrwydd, parhau i sicrhau cywirdeb a defnyddio cystrawen naturiol ac 'iaith glir'. Byddwn yn:
- i. cyflymu'r broses o gyhoeddi terminoleg deddfwriaethol Gymraeg safonedig ychwanegol ar TermCymru;
 - ii. nodi sut y gall system gyfieithu a chyfieithu peirianyddol newydd arfaethedig y Llywodraeth ein galluogi i weithio'n fwy effeithlon, tynnu sylw at welliannau y gellir eu gwneud i'r testun gwreiddiol, a hwyluso gwell ymgynghori ar dermau technegol;
 - iii. adolygu'r canllawiau arddull mewnol i nodi cyfleoedd i wneud y testun yn gliriach ac yn fwy naturiol yn y ddwy iaith;
 - iv. cytuno ar brosesau i gyfieithwyr deddfwriaethol a chwmsleriaid deddfwriaethol gydweithio i wella'r drafft gwreiddiol yn ogystal â sicrhau bod y cyfieithiad yn gywir; a
 - v. mireinio sgiliau golygyddol drwy rannu arbenigedd rhwng cyfieithwyr deddfwriaethol a chwmsleriaid deddfwriaethol.
- e. Archwilio'r potensial ar gyfer defnyddio dysgu peirianyddol a deallusrwydd artiffisial i wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch. Bydd hyn yn golygu cydweithio â Phrifysgol Abertawe ac eraill i archwilio'r cyfleoedd i ddefnyddio technoleg i wella a chyflymu'r broses o wneud y gyfraith yn fwy hygyrch.

Mae'r Llywodraeth eisoes wedi paratoi canllawiau ar ddatblygu deddfwriaeth sylfaenol. Er mai canllawiau mewnol ar gyfer Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru yw'r rhain, fe'u cyhoeddwyd i helpu pobl i ddeall y broses ddeddfu a'r ffordd y caiff deddfwriaeth ei datblygu a'i drafftio. Yn ystod tymor y Senedd hon mae'r Llywodraeth yn bwriadu adolygu a diweddarau, yn ôl yr angen:

- a. Y Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Senedd;
- b. *Common Legislative Solutions* (canllawiau sy'n helpu swyddogion cyhoeddus i ddeall materion sy'n codi'n fynych a dysgu o'r hyn a wnaed yn y gorffennol i'w datrys);
- c. Drafftio Deddfau i Gymru (canllawiau drafftio deddfwriaethol Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol).

Byddwn hefyd yn llunio ac yn cyhoeddi canllawiau ychwanegol ar y prosesau a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â llunio Biliau cydgrynhoi.

Prosiectau eraill

Byddwn yn parhau i weithio gyda Chomisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr i nodi un neu fwy o brosiectau sy'n ymwneud â chyfraith Cymru i'w cynnwys yn ei Bedwaredd Rhaglen ar Ddeg o Ddiwygio'r Gyfraith a fydd yn dechrau yn 2022. Gallai hyn gynnwys prosiectau diwygio'r gyfraith neu adolygiadau o feysydd technegol y gyfraith, megis y gyfraith etholiadol sy'n sail i etholiadau lleol ac etholiadau'r Senedd, neu'r gyfraith sy'n llywodraethu cyhoeddi statudau ac offerynnau statudol ar-lein. Dim ond enghreifftiau yw'r rhain o feysydd o'r gyfraith ble y gallai Comisiwn y Gyfraith gefnogi uchelgais y Llywodraeth i symleiddio a moderneiddio'r gyfraith. Caiff y rhaglen hon ei diweddarau i gynnwys prosiectau perthnasol Comisiwn y Gyfraith ynddi, os bydd angen.

Adrodd ar y rhaglen

O dan Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, mae'n ofynnol i'r Cwnsler Cyffredinol adrodd yn flynyddol i'r Senedd ar gynnydd y rhaglen. Caiff yr adroddiad cyntaf ei gyflwyno yn 2022.

Huw Irranca-Davies AS

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

22 Medi 2021

Hygyrchedd Cyfraith Cymru

Annwyl Huw

Ysgrifennodd y Cwnsler Cyffredinol ataf yn ystod yr haf i nodi ei fwriad i gymryd camau yn ystod tymor y Senedd hon i wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch. Atododd bapur a baratowyd gan Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol, sef 'Proposal to modernise the structure and presentation of Welsh law'. Mae'r llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol dyddiedig 24 Mehefin 2021 a'r papur ynghlwm.

Fel Llywydd, mae Rheol Sefydlog 26.3 yn gwneud darpariaeth i mi benderfynu ar ffurf briodol Biliau'r Senedd. I'm helpu wrth ystyried y penderfyniad nesaf, hoffwn ofyn am farn pobl ynghylch y ffordd orau o wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch, gan gynnwys y syniadau a nodwyd ym mhapur Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol. Hoffwn ofyn am farn y rhai sy'n cymryd rhan yn y broses graffu ddeddfwriaethol a'r rhai a fydd yn defnyddio'r ddeddfwriaeth derfynol. Yn ei gyfarfod yr wythnos diwethaf, cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid gwahodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i gyflawni'r dasg hon.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallai eich Pwyllgor gynnal ymchwiliad byr i'r mater hwn a chyflwyno adroddiad ar eich casgliadau. Nid yw'r Pwyllgor Busnes wedi gosod dyddiad cau ar gyfer y gwaith hwn, ond byddai'n ddefnyddiol i'r adroddiad fod ar gael mor gynnar yn y tymor hwn â phosibl i lywio fy mhenderfyniad ac i ddrafftio'r rhaglen ddeddfwriaethol yn y dyfodol. Byddem yn croesawu awgrym cynnar o'r amserlen ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor.

Yn gywir



Elin Jones AS

Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Elin Jones AS/MS
Llywydd Senedd Cymru
Comisiwn y Senedd
Bae Caerdydd

24 Mehefin 2021

Hygyrchedd Cyfraith Cymru – Accessibility of Welsh law

Wrth i ni ddechrau tymor newydd yn y Senedd a pharatoi i fabwysiadu system drafftio a rheoli deddfwriaeth newydd, hoffwn awgrymu rhai gwelliannau i'r ffordd y cyflwynir deddfwriaeth Cymru. Rwy'n deall fod nifer o ddiwygiadau posib wedi cael eu trafod ar adegau dros y blynyddoedd, ond er nad oes neb wedi codi unrhyw wrthwynebiad o sylwedd iddynt, nid ydynt wedi'u rhoi ar waith.

Fodd bynnag, mae pasio Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 gan y Senedd, a'r rhwymedigaeth ar y Llywodraeth o dan Ran 1 i hyrwyddo rhaglen o weithgareddau i wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch, wedi fy ysbrydoli i roi mwy o ystyriaeth i'r materion hyn. Rwy'n gobeithio y bydd y Ddeddf hefyd yn rhoi mwy o ysgogiad i sicrhau newid y tro hwn.

Fel yr esbonia'r papur amgaeedig a baratowyd gan Swyddfa'r Cwnsler Deddfwriaethol, mae ffurf a strwythur Deddfau'r Senedd wedi'i seilio'n bennaf ar ffurf a strwythur Deddfau Senedd y DU, sydd yn ei dro yn deillio o gannoedd o flynyddoedd o hanes. Credaf y dylem ailystyried sut i gyflwyno deddfwriaeth Cymru, gan seilio hyn nid ar weithdrefn seneddol, ond ar anghenion defnyddwyr deddfwriaeth. Dylem ganolbwyntio, yn bennaf oll, ar wneud deddfwriaeth yn haws i'w darllen a'i deall.

Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ystyried y cynnig amgaeedig, y byddwn, wrth gwrs, yn hapus iawn i'w drafod.

Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.





Cynnig i foderneiddio strwythur a chyflwyniad cyfraith Cymru

Mae'r ffordd y cyflwynir deddfwriaeth Cymru wedi'i seilio i raddau helaeth ar y ffordd y cyflwynir deddfwriaeth y DU. Ac, yn ei dro, mae'r ffordd y cyflwynir deddfwriaeth y DU yn deillio o gannoedd o flynyddoedd o hanes. Mae ffurf, strwythur ac iaith deddfwriaeth wedi datblygu'n raddol dros nifer o flynyddoedd, yn deillio'n bennaf o'r weithdrefn Seneddol yn hytrach nag ystyried sut y gellid ei gwneud yn haws ei darllen a'i deall. Ychydig o ystyriaeth a roddwyd i'r ffordd orau a mwyaf hygrych o gyflwyno a chyhoeddi deddfwriaeth.

Teitlau "hir" a "byr"

Efallai taw'r amlygiad cliraf o effaith y gorffennol yw'r syniad rhyfedd o gael dau deitl i Ddeddf. Yn hanesyddol, nid oedd teitl gwirioneddol i Ddeddf, yn hytrach trefnwyd deddfwriaeth drwy gyfeirio at rif a dyddiad ei chyfres. Yn y pen draw, daeth teitl o fath i'r amlwg, ond roedd hwn yn ddisgrifiad hir yn aml o gynnwys y Ddeddf dan sylw – yr hyn y cyfeiriwn ato'n awr fel y teitl "hir". Mae'r teitl "byr" i Ddeddf yn ddatblygiad cymharol fodern, a ddefnyddiwyd i gyfeirio at deddfwriaeth yn haws, yn arbennig yn y llys (a dyna pam y defnyddir y geiriau "This Act may be cited as [beth bynnag yw'r teitl byr]").

Yn ein barn ni, mae gwahaniaethu hwn rhwng teitl byr a theitl hir yn gymhlethdod diangen na ddylem barhau. Yn hytrach dylai pob Deddf gael un teitl yn unig (sef yr hyn y mae'r rhan fwyaf o bobl, mae'n siŵr, yn credu yw'r teitl – y teitl byr i'r Ddeddf).

Darpariaethau "trosolwg"

Mae'n werth cael testun mwy disgrifiadol ar ddechrau Deddf fel y gall y darllenydd ddeall yr hyn y mae'n ei gynnwys yn gyflym, ond nid defnydd o deitl hir yw'r ffordd orau o wneud hyn. Mae'r teitl hir yn ddiffygiol oherwydd ei fod yn "deitl" arall ac oherwydd y ffordd y mae wedi'i ddrafftio fel un frawddeg hir. Byddai trosolwg byr i Ddeddf – wedi'i drafftio a'i strwythuro yn unol ag arfer modern – yn ffordd llawer mwy effeithiol o helpu'r darllenydd i ddeall beth sy'n dilyn.

Rydym wedi ymgorffori darpariaethau trosolwg yn rheolaidd yn ein Deddfau am y rheswm hwn. Yn gyffredinol, mae'r rhain wedi cael derbyniad da ac, ar y cyfan, maent wedi cyflawni eu diben. Mae'n hanfodol, fodd bynnag, eu bod yn cael eu cadw'n fyr, sy'n golygu, yn achos Deddfau hir, ein bod yn ystyried mabwysiadu trosolwg ar gyfer pob rhan o ddeddf – rhywbeth sy'n galluogi i ni gadw'r prif drosolwg yn gryno iawn. Mae'n hanfodol hefyd mai dyna'n union yw'r trosolwg, ac nad yw'n cynnwys darpariaethau cyfreithiol sylweddol.

Yn ddiweddar, rydym wedi defnyddio'r trosolwg cryn dipyn yn llai. Y prif reswm am hyn yw bod bodolaeth y teitl hir, yn enwedig mewn Deddf fer, yn gwneud i'r trosolwg ymddangos fel ailadrodd diangen. Rydym yn ymwybodol hefyd bod cwmsleriaid seneddol mwy traddodiadol yn gwrthwynebu'r defnydd o unrhyw ddeunydd diangen mewn deddfwriaeth am ddau reswm – yn gyntaf, oherwydd bydd ychwanegu trosolwg fel adran i Ddeddf yn golygu y bydd defnyddwyr deddfwriaeth (gan gynnwys, yn bwysig, y llysoedd) yn dueddol o dybio ei fod yn cael effaith sylweddol fel cyfraith (mewn geiriau, mae'n golygu ychwanegu rhywbeth), ac yn ail oherwydd y risg y

bydd y ddarpariaeth yn mynd o'i le os oes methiant i'w ddiwygio i fod yn gyson â gweddill y Bil wrth i welliannau eraill gael eu gwneud i Fil.

Am y rhesymau hyn rydym yn awgrymu y dylai trosolwg gael statws tebyg i benawdau. Byddai'r trosolwg yn rhan o Fil ond gan taw ei bwmpas yw helpu pobl i ddefnyddio'r ddogfen yn hytrach na sicrhau newid yn y gyfraith byddai dim modd ei diwygio wrth basio Bil (ac eithrio, pam fo angen, wrth gwneud newidiadau argraffu rhwng camau deddfu). Eto yn yr un ffordd â phenawdau byddai modd eu diwygio'n ddiweddarach drwy ddefnyddio deddfwriaeth wahanol (wedi i'r Bil perthnasol gael ei basio).

Mae teitlau hir wedi datblygu swyddogaeth benodol yn Senedd San Steffan oherwydd eu cynnwys yw'r ddarpariaeth bwysicaf ar gyfer pennu cwmpas Bil. Fodd bynnag, ni fyddai dileu teitlau hir yn arwain at broblem yn hyn o beth yn Senedd Cymru. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod y prawf yn y Senedd (yn synhwyrol) yn un mwy eang sy'n seiliedig ar p'un ai yw'r gwelliant yn "berthnasol", o ystyried cynnwys y Bil, ac yn rhannol oherwydd y byddai'r teitl hir, beth bynnag, yn cael ei ddisodli gan drosolwg mwy modern ac haws ei ddeall (a fyddai'n helpu i bennu perthnasedd).

Geiriau o ddeddfiad

Mater arall sy'n deillio o hanes arall yw'r geiriau o ddeddfiad a ddefnyddiwn ar ddechrau Bil Cymreig. Mae'r rhain yn dilyn y "fformiwla ddeddfu" a gafodd ei mabwysiadu yn San Steffan o'r 15fed ganrif ymlaen. Mae gan Filiau'r DU 5 fformiwla ddeddfu wahanol yn dibynnu ar eu cynnwys a'r broses a fabwysiadwyd ar gyfer pasio'r bil ond yng ngeiriau Halsbury's Laws "The enacting formula is now purely formal". Yng Nghymru dim ond un fformiwla sydd ond mae'r geiriau hynny hefyd yn gwbl seremonïol gan nad ydynt yn angenrheidiol o safbwynt cyfreithiol. Mae'r geiriad a ddefnyddir yn ceisio cyfleu'r ffaith bod yn rhaid i Ddeddf, er mwyn dod yn gyfraith, gael ei phasio gan y Senedd a chael asesiad Ei Mawrhydi:

Gan ei fod wedi ei basio gan Senedd Cymru ac wedi derbyn cydsyniad gan Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:

Ond nid yw'r geiriad hwn yn syml a gellid ei ddrafftio yn fwy syml (gan osgoi'r llais goddefol), er enghraifft:

Mae Senedd Cymru, gyda chydsyniad Ei Mawrhydi, yn deddfu fel a ganlyn:

Fodd bynnag, ein dewis fyddai hepgor y geiriau hyn yn gyfan gwbl.

Nid yw Biliau'r Alban yn cynnwys geiriau o ddeddfiad, yn hytrach maent yn dechrau drwy ddarparu gwybodaeth bwysicach a nodir yn glir (dyddiadau pasio a Cydsyniad Brenhinol) fel a ganlyn:

The Bill for this Act of the Scottish Parliament was passed by the Parliament on 23rd March 2021 and received Royal Assent on 5th May 2021

Dyddiadau

Mae Deddfau'r Senedd yn ychwanegu dyddiad y Cydsyniad Brenhinol mewn cromfachau sgwâr (fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith) ond nid ydynt yn rhoi unrhyw esboniad pellach. Mae'n werth nodi hefyd na chyfeirir yn y naill achos na'r llall at y dyddiad pwysicaf, sef y dyddiad y daw'r Ddeddf i rym. I ddefnyddwyr deddfwriaeth, mae cyfeirio at y dyddiad y paswyd Deddf a dyddiad Cydsyniad

Brenhinol y Ddeddf heb gyfeirio at y dyddiad y daw i rym yn debygol o’u drysu. Felly rydym awgrymu y byddai rhywbeth fel hyn yn well:

Pasiwyd gan Senedd Cymru: 23 Mawrth 2021
Yn dod i rym: 6 Mai 2021

Cydsyniad Brenhinol: 5 Mai 2021

Pan ddaw'r Ddeddf i rym fesul cam neu drwy Orchymyn gellid cyfeirio at yr adran sy'n gweithredu hyn, fel y gwneir eisoes yn achos Offerynnau Statudol.

Ffontiau

Er i benderfyniad gael ei wneud yn 2007 i fabwysiadu ffont wahanol ym Miliâu Cymru i'r un a ddefnyddiwyd yn Senedd San Steffan, roedd y ffont a ddewiswyd yn ffont debyg, draddodiadol, "serif". Mae rhai pobl yn ei chael hi'n anodd darllen ffontiau serif, oherwydd eu bod yn tynnu sylw'r llygaid a'r ymennydd o siâp cyffredinol y llythyr – gweler yr linc isod:

https://reciteme.com/uploads/articles/accessible_fonts_guide.pdf

Ystyr "sans serif" yw "heb y llinell addurniadol" ac yn ein barn ni dylem ystyried mabwysiadu ffont "sans serif" gan ei fod yn fwy hygyrch ac (fel mater eilradd) yn edrych yn fwy modern. Mae bellach yn arferol defnyddio ffontiau "sans serif", yn arbennig ar unrhyw ddeunydd a ddarllenir ar y sgrin, sy'n bwysig o gofio nad yw pobl bellach yn prynu copïau papur o ddeddfwriaeth a bod y mwyafrif llethol o bobl yn darllen deddfwriaeth ar-lein.

Cymorth llywio

Hoffem hefyd fabwysiadu'r arfer a ddefnyddir yn Neddfau'r Alban (ac yn rhannol yn Neddfau'r DU) o gynnwys pennyn ar y ddogfen sy'n eich hysbysu y mha Ran neu Atodlen o'r Ddeddf yr ydych ynddynt. Rhywbeth bach a hawdd i'w wneud yw hwn sy'n helpu pobl i lywio deddfwriaeth sydd yn ddefnyddiol yn enwedig pan fo'n hir iawn. Gweler yr enghraifft:

https://www.legislation.gov.uk/asp/2021/8/pdfs/asp_20210008_en.pdf

Enghraifft

Ceir enghraifft o'r cynllun presennol yn Atodiad 1 a dewis amgen yn Atodiad 2.

Offerynnau Statudol

Yn olaf, er gwybodaeth rydym hefyd yn ystyried y ffordd y mae Offerynnau Statudol a wneir gan Weinidogion Cymru wedi'u gosod allan, yn enwedig y defnydd o fformat y golofn ddeuol. Yn fy marn i, hwn oedd peth iawn i'w wneud 20 neu fwy o flynyddoedd yn ôl pan ddechreuon ni wneud is-ddeddfwriaeth Gymreig am y tro cyntaf ond mewn oes lle mae bron pawb yn darllen deddfwriaeth ar-lein, mae'n gymhlethdod diangen a drud yn y broses gyhoeddi. Fy mwriad yw disodli'r golofn ddeuol gan ateb technolegol sy'n eich galluogi i ystyried y ddwy iaith ochr yn ochr yn hawdd ar y sgrin.

Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol

Esiampl o'r gosodiad presennol

Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014

Deddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud darpariaeth ar gyfer gweithredu mewn perthynas â cheffylau sydd mewn manau cyhoeddus heb awdurdod cyfreithlon neu sydd ar dir arall heb ganiatâd, ac mewn cysylltiad â hynny. [27 Ionawr 2014]

Gan ei fod wedi ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:

1 Trosolwg

Mae'r Ddeddf hon yn gwneud darpariaeth i awdurdodau lleol ymafael mewn ceffylau, cadw ceffylau a gwaredu ceffylau sydd –

- (a) mewn manau cyhoeddus heb awdurdod cyfreithlon, neu
- (b) ar dir arall heb ganiatâd meddiannydd y tir.

2 Pŵer awdurdod lleol i ymafael mewn ceffylau

- (1) Caiff awdurdod lleol ymafael mewn ceffyl a chadw ceffyl sydd ar unrhyw briffordd, neu mewn unrhyw fan cyhoeddus arall, yn ardal yr awdurdod lleol os oes gan yr awdurdod lleol sail resymol dros gredu bod y ceffyl yno heb awdurdod cyfreithlon.
- (2) Caiff awdurdod lleol ymafael mewn ceffyl a chadw ceffyl sydd ar unrhyw dir arall yn ardal yr awdurdod lleol os oes gan yr awdurdod lleol sail resymol i gredu –
 - (a) yn achos tir y mae'r awdurdod lleol yn feddiannydd arno, bod y ceffyl yno heb ganiatâd yr awdurdod lleol, neu
 - (b) yn achos tir arall yn ardal yr awdurdod lleol, bod y ceffyl yno heb ganiatâd meddiannydd y tir a bod y meddiannydd yn caniatáu i'r awdurdod lleol ymafael ynddo a'i gadw.

...

10 Cychwyn ac enw byr

- (1) Daw'r Ddeddf hon i rym y diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff Gydsyniad Brenhinol.
- (2) Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014.

ATODIAD 2

Gosodiad amgen posibl

Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014

Pasiwyd gan Senedd Cymru: 10 Rhagfyr 2013
Yn dod i rym: 28 Ionawr 2014

Cydsyniad Brenhinol: 27 Ionawr 2014

Trosolwg Mae'r Ddeddf hon yn gwneud darpariaeth i awdurdodau lleol ymafael mewn ceffylau, cadw ceffylau a gwaredu ceffylau sydd—
(a) mewn mannau cyhoeddus heb awdurdod cyfreithlon, neu
(b) ar dir arall heb ganiatâd meddiannydd y tir.

1 Pŵer awdurdod lleol i ymafael mewn ceffylau

- (1) Caiff awdurdod lleol ymafael mewn ceffyl a chadw ceffyl sydd ar unrhyw briffordd, neu mewn unrhyw fan cyhoeddus arall, yn ardal yr awdurdod lleol os oes gan yr awdurdod lleol sail resymol dros gredu bod y ceffyl yno heb awdurdod cyfreithlon.
- (2) Caiff awdurdod lleol ymafael mewn ceffyl a chadw ceffyl sydd ar unrhyw dir arall yn ardal yr awdurdod lleol os oes gan yr awdurdod lleol sail resymol i gredu—
 - (a) yn achos tir y mae'r awdurdod lleol yn feddiannydd arno, bod y ceffyl yno heb ganiatâd yr awdurdod lleol, neu
 - (b) yn achos tir arall yn ardal yr awdurdod lleol, bod y ceffyl yno heb ganiatâd meddiannydd y tir a bod y meddiannydd yn caniatáu i'r awdurdod lleol ymafael ynddo a'i gadw

...

9 Cychwyn

Daw'r Ddeddf hon i rym ar 28 Ionawr 2014.

Eitem 3.1

SL(6)086 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021

Cefndir a Diben

Mae'r [Rheoliadau](#) hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1609 (Cy. 335)) ("y Rheoliadau Cyfyngiadau").

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol drwy wneud y newidiadau canlynol:

- Estyn y gydnabyddiaeth o dystysgrifau brechlyn penodol a ddyroddir gan wledydd a thiriogaethau Ewropeaidd ychwanegol, at ddibenion esemptiadau teithio o ran profi cyn ymadael a brechlynnau;
- Estyn y gydnabyddiaeth o frechiadau i ragor o wledydd a thiriogaethau:
 - Belarws, Bolivia, Ecuador, Gweriniaeth Dominica, Gweriniaeth Ddemocrataidd Congo, Laos, Libya, Malawi, Mozambique, Samoa, Senegal, Vanuatu, Zambia a Zimbabwe;
- Ehangu'r diffiniad o "brechlyn awdurdodedig" drwy ddileu'r gofyniad ei fod i'w weinyddu mewn gwlad berthnasol a thrwy gydnabod brechlynnau penodol a gydnabyddir gan Sefydliad Iechyd y Byd;
- Dileu'r gofynion preswyllo ar gyfer teithwyr sydd wedi eu brechu yn Unol Daleithiau America, cyfranogwyr mewn treialon clinigol, a theithwyr o dan 18 oed;
- Esemptio pawb o dan 18 oed rhag y gofyniad i ynysu;
- Cyflwyno dulliau pellach i deithwyr brofi eu bod wedi eu brechu, gan gynnwys tystysgrifau trydydd gwledydd a thiriogaethau a gymeradwywyd a thystysgrifau brechu taleithiau penodol yn yr Unol Daleithiau;
- Gwneud diwygiadau technegol pellach gan gynnwys ynghylch brechiadau fel rhan o raglen frechu'r DU dramor;
- Esemptio'r personau a ganlyn rhag y gofyniad i ddarparu gwybodaeth am deithiwr pan fônt wedi teithio i Gymru yng nghwrs eu gwaith (pa un a ydynt wedi teithio ar gludiant sy'n cario teithwyr ai peidio): gweithwyr cludiant ffyrdd; gweithwyr cludiant teithwyr ffyrdd; meistri a morwyr; peilotiaid ar longau masnach; arolygwyr a syrfewyr llongau; a chriw awyren.
- Dileu'r gofyniad ynysu ar gyfer cludwyr preswyl nad ydynt yn byw yn y DU pan nad ydynt yn y gwaith;



- Dileu'r gofyniad i ddiplomyddion penodol gael awdurdodiad ysgrifenedig gan y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu cyn dibynnu ar ddarpariaethau esemptio rhag ynysu. Mae rheoliad 9 hefyd wedi ei diwygio er mwyn cysoni esemptiadau rhag ynysu ar gyfer gweithwyr cludiant ffyrdd ni waeth beth fo'u statws preswyllo;
- Gwneud diwygiadau technegol a chanlyniadol pellach.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio'r Rheoliadau Cyfyngiadau, gan gynnwys estyn ymhellach y rhestr o wledydd a thiriogaethau, fel bod tystiolaeth o frechu yn y gwledydd hynny â brechlynnau sydd wedi eu hawdurdodi yn y Deyrnas Unedig hefyd yn dderbyniol at ddibenion yr hyn a adwaenir yn gyffredin fel y pàs COVID.. Mae'r diwygiadau yn parhau'n gyson â'r diwygiadau cydnabod brechlyn a wnaed i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn fod y rheol 21 diwrnod yn cael ei thorri (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a nodwn yr esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 19 Tachwedd 2021.

Yn benodol, nodwn yr hyn y mae'r llythyr yn ei ddweud ynghylch dull pedair gwlad mewn perthynas â theithio rhyngwladol:

"Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod bydd modd i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd a pharhau â'r dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol. O ystyried y newid yn y dystiolaeth ynglŷn â'r risg mewn perthynas â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."



2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur."

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

25 Tachwedd 2021



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament Tudalen y pecyn 50

Legislation, Justice and Constitution Committee



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Fframweithiau Cyffredin a Dadansoddiad o Fframweithiau 2021
DYDDIAD	19 Tachwedd 2021
GAN	Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

DfT	Roads – Motor insurance	x			<p>Directive 2009/103/EC. Directive relating to insurance against civil liability in respect of the use of motor vehicles. There are also a number of pieces of domestic HMT legislation which may operate in the area.</p> <p>(This area was previously called Compulsory (3rd Party) Motor Insurance - as per Part VI Road Traffic Act 1988).</p>
DHSC	Nutrition Labelling, Composition and Standards	x*	x*	x*	Regulations and Directives on the nutrition and health claims made on food; food for special medical purposes and weight control; food intended for infants; the addition of vitamins and other substances to food; and food supplements.

Responsible UK Government Department	Area of EU Law (Policy Area)	Devolution Intersect			Additional Information - previous EU law
		NI	S	W	
DHSC	Blood Safety and Quality	x	x	x	Defines the quality and safety standards for blood and its components as set out in Directive 2002/98/EC. It covers all steps in the transfusion process from donation, collection, testing, processing, and storage to distribution. Its implementation is supported by Commission Directive 2004/33/EC, Commission Directive 2005/61/EC and Commission Directive 2005/62/EC. There are also some specific technical requirements in the following commissioning directives 2009/135/EC, 2011/38/EU, 2014/110/EU, 2016/1214
DHSC	Organs, Tissues and Cells (apart from embryos and gametes)	x	x	x	Directives setting out standards on the quality and safety of human organs intended for transplantation and tissues and cells for human application as part of medical treatment, and sets out the information procedures for exchange between Member States (Directives 2010/53/EU, 2012/25/EU, 2004/23/EC, 2006/17/EC, 2006/86/EC, 2012/39/EU, 2015/565 and 2015/566).
DHSC	Public Health Protection and Health Security	x*	x*	x*	Decision No 1082/2013/EU on serious cross-border threats to health and Regulation 851/2004 establishing a European centre for disease prevention and control. These set rules on epidemiological surveillance, monitoring, early warning of, and combating serious cross-border threats to health, including preparedness and response planning related to those activities, in order to coordinate and complement national policies. It aims to support cooperation and coordination between Member States.
DLUHC	Hazardous Substances (planning)	x	x	x	Ensures that the objectives of preventing major accidents and limiting the consequences of such accidents are taken into account in land-use policies. This includes controls on the siting of new establishments and modifications to establishments which fall within the scope of the Directive (i.e. storing or using significant amounts of hazardous substances), and on new developments and public areas in the vicinity of such establishments.

Responsible UK Government Department	Area of EU Law (Policy Area)	Devolution Intersect			Additional Information - previous EU law
		NI	S	W	
Food Standards Agency	Food and Feed Safety and Hygiene Law	x	x	x	EU Regulations laying down the general principles and requirements of food and feed safety and hygiene; food and feed law enforcement (official controls); food safety labelling; risk analysis; and incident handling. The regulations set out an overarching and coherent framework for the development of food and feed legislation and lay down general principles, requirements and procedures that underpin decision making in matters of food and feed safety, covering all stages of food and feed production and distribution.

Category 3: Frameworks with associated primary legislation

Three policy areas where, at the time of publication, new primary legislation had been introduced to reflect the fact that the UK is no longer an EU member state. This legislation implements common rules and ways of working, alongside a non-legislative Framework agreement.

Tudalen y pecyn 136

Responsible UK Government Department	Area of EU Law (Policy Area)	Devolution Intersect			Additional Information - previous EU law	Associated primary legislation
		NI	S	W		
BEIS	Emissions Trading Scheme (ETS)	x*	x*	x*	Directive 2003/87/EC establishes the European Union Emissions Trading System for greenhouse gases. The Scheme sets a maximum volume of gas that can be emitted by all participating installations and aircrafts. These operators then monitor, verify and report their emissions, and must surrender allowances equivalent to their emissions annually. Allowances are issued either by being sold at auction or allocated for free to some operators, and can be traded, with the price determined by the market.	Finance Act 2020
Defra	Agricultural Support	x*	x*	x*	Policies and Regulations under the EU Common Agricultural Policy covering Pillar 1 (income and market support); Pillar 2 (rural growth, agri-environment, agricultural productivity grants or services and organic conversion and maintenance grants); and cross-cutting issues, including cross compliance, finance & controls.	Agriculture Act 2020
Defra	Fisheries Management and Support	x*	x*	x*	Policies and Regulations relating to rules relating to the sustainability of fisheries (quotas), access to waters, conservation measures, enforcement and financial support.	Fisheries Act 2020

Policy areas that the UK Government assesses are reserved, but are subject to ongoing discussion with the devolved administrations

Responsible UK Government Department	Area of EU Law (Policy Area)	Additional Information - previous EU law
Defra	Food & Drink Geographical Indications (Protected Food Names)	Geographical Indications (GIs) are a form of intellectual property protection. Under the EU schemes, producers could apply to protect regionally distinct or traditional agri-food products. Once registered, these products were protected throughout the EU against imitation or misuse of their names.
Home Office	Data Sharing- Eurodac	Regulation 603/2013/EU established Eurodac - an EU database containing fingerprints of illegal entrants and asylum applicants. Its primary purpose is to support the effective application of the Dublin Convention by helping to determine which EU Member State is responsible for examining an asylum application.

Two policy areas overseen by BEIS have been removed since the last publication. The UK Government and Northern Ireland Executive have agreed that Elements of Product Safety and Standards Relating to Explosive Atmospheres (ATEX) is reserved. In relation to State Aid, the UK Internal Market Act 2020 amended the Scotland Act 1998, Northern Ireland Act 1998 and the Government of Wales Act 2006 and in doing so, established that the regulation of the provision of subsidies by public authorities is reserved.

Glossary of terms

BEIS - Department for Business, Energy and Industrial Strategy

Concordat - a form of non-legislative agreement

DA - devolved administration

Defra - Department for Environment, Food and Rural Affairs

DfT - Department for Transport

DHSC - Department of Health and Social Care

DLUHC - Department for Levelling Up, Housing and Communities

DWP - Department for Work and Pensions

GB - Great Britain

GEO - Government Equalities Office

HSE - Health and Safety Executive

JMC(EN) - Joint Ministerial Committee (European Negotiations)

MoJ - Ministry of Justice

MoU - Memorandum of Understanding

TCA - EU-UK Trade and Cooperation Agreement

UKG - UK Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

25 Tachwedd 2021

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Tachwedd. Rhoddais yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn dilyn cyfarfod Gweinidogion y pedair gwlad ar y fframweithiau yn fy llythyr dyddiedig 19 Tachwedd.

Mewn perthynas â'ch pwyntiau penodol:

Yn y cyfarfod rhwng y pedair gwlad ar 10 Tachwedd, cytunwyd ar y materion trawsbynciol sy'n effeithio ar y geiriad ar gyfer y Fframweithiau Cyffredin, sef geiriad y testun ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol, Protocol Gogledd Iwerddon a'r broses o sut y bydd eithriadau ar gyfer meysydd polisi mewn fframweithiau a effeithiwyd gan Ddeddf Marchnad Fewnol y DU yn cael eu rhoi ar waith. Fel yr eglurais yn fy llythyr dyddiedig 19 Tachwedd, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar y testun ar eithriadau Deddf Marchnad Fewnol y DU niweidio'r adolygiad barnwrol parhaus mewn perthynas â Deddf y Farchnad Fewnol.

Yn dilyn y cyfarfod rhwng y pedair gwlad, mae'r fframweithiau'n symud yn gyflym at gael eu cyhoeddi er mwyn i'r pwyllgorau'r deddfwrfeydd graffu arnynt. Mae'r fframwaith Diogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd eisoes wedi cael ei gyhoeddi, ar 28 Hydref. Mae dogfennau'r fframwaith yn cael eu cwblhau ac mae'r dyddiadau cyhoeddi yn dal yn hyblyg, ond gan ystyried y cafeatau hyn, mae pob ymdrech yn cael ei gwneud i gyhoeddi fframweithiau i graffu arnynt ar y dyddiadau canlynol:

2 Rhagfyr

Diogelwch ac Ansawdd Gwaed; Organau, Meinweoedd a Chelloedd; Cyfraith Cwmniâu (Gweithredaeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth y DU yn unig); Niferoedd Penodol (Gweithredaeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth y DU yn unig).

9-16 Rhagfyr

Y Cynllun Masnachu Allyriadau; Taliad Hwyr; Sylweddau Ymbelydrol; Caffael Cyhoeddus; Cymorth Amaethyddol; Amaethyddiaeth – Rheoliadau Gwrteithiau, Amaethyddiaeth –

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ffermio Organig; Amaethyddiaeth – Zootech; Iechyd a Lles Anifeiliaid; Iechyd Planhigion; Amrywogaethau a Hadau Planhigion; Ansawdd Aer; Technegau Gorau Sydd ar Gael (ansawdd aer); Safonau a Labeli Cyfansoddiad Bwyd; Sylweddau sy'n Teneuo'r Osôn a Nwyon wedi'u fflworeiddio; Cemegion a Phlâladdwyr; Adnoddau a Gwastraff.

Ionawr 2022

Pysgodfeydd: Rheoli a Chefnogi.

Mae fy swyddogion wedi bod mewn cysylltiad â chlercod y pwyllgorau am beth amser i drafod y dulliau o ymdrin â'r fframweithiau, ac rwy'n deall bod swyddogion y Senedd yn paratoi i ddadansoddi fframweithiau a'u paratoi er mwyn i'r Pwyllgorau graffu arnynt cyn gynted â'u bod yn cael eu cyhoeddi.

Wrth gwrs, mater i'r pwyllgorau yw hyd y broses graffu ar y fframweithiau. Yn ddelfrydol, bydd y gwaith o graffu ar y fframweithiau a'u cymeradwyo yn digwydd cyn dechrau'r cyfnod cyn-etholiadol yng Ngogledd Iwerddon. Nid yw'r dyddiad hwn wedi'i gadarnhau eto, ond mae'n debygol mai ddiwedd mis Mawrth fydd hynny, os bydd yr etholiadau'n cael eu cynnal ar 5 Mai, yn ôl y bwriad. Rwy'n llawn werthfawrogi bod hyn yn rhoi pwysau sylweddol ar Bwyllgorau sydd eisoes dan bwysau i archwilio nifer fawr iawn o ddeunydd fframweithiau mewn cyfnod byr. Byddai fy nhîm polisi fframweithiau yn hapus i gynnig unrhyw gymorth er mwyn helpu'r broses graffu.

Yn gywir,



Mick Antoniw AS/MS

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution



Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

19 Tachwedd 2021

Annwyl Huw,

Yn dilyn fy llythyr ar 8 Tachwedd, rwy'n ysgrifennu'n unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi ynghylch canlyniad y cyfarfod Gweinidogol Pedairochrog ar Fframweithiau Cyffredin, a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd.

Daethpwyd i gytundeb ar bob un o'r pynciau trawsbynciol a oedd heb eu cytuno, sef proses ar gyfer eithriadau o dan Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig mewn achosion o wahaniaethau a gynigir, ac ar y geiriad mewn perthynas â Chysylltiadau Rhyngwladol a Phrotocol Gogledd Iwerddon. O ran y broses eithriadau, roedd Llywodraeth Cymru wedi mynd â'r holl drafodaethau, negodiadau a phenderfyniadau, heb ragfarn, at yr adolygiad barnwrol sy'n parhau i fynd rhagddo mewn perthynas â Deddf y Farchnad Fewnol.

Hefyd, ymrwymodd yr holl bartïon i adrodd ar y fframweithiau yn y dyfodol fel rhan o'r broses o oruchwylio'r fframweithiau o fewn yr Adolygiad Cysylltiadau Rhyglywodraethol. Bydd y broses hon hefyd yn rhoi sicrwydd i bwyllgorau'r Senedd y byddant yn gallu monitro hynt y fframweithiau dros y tymor hirach. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion gynhyrchu papur erbyn diwedd y flwyddyn hon, i'w gytuno gan Weinidogion y pedair llywodraeth, yn amlinellu dull gweithredu ar gyfer adrodd ar Fframweithiau Cyffredin.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddaf yn cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig, sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf am raglen y Fframweithiau Cyffredin, yn hanner cyntaf mis Rhagfyr cyn i'r rhan fwyaf o fframweithiau gael eu cyhoeddi at ddibenion craffu.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink, reading "Mick Antoniw". The signature is written in a cursive style. Below the signature, there is a short horizontal blue line.

Mick Antoniw AS/MS

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution



Ein cyf/Our ref: MA/RE/2315/21

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddDCC@senedd.cymru

20 Tachwedd 2021

Annwyl Huw,

Y Rheoliadau Priso ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) 2021

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 16 Tachwedd. Er bod y polisi ardrethi annomestig wedi ei ddatganoli, mae rhai elfennau o'r system ardrethu, ar lefel ymarferol, yn gweithredu ar draws Cymru a Lloegr. Mae priso, ac yn ei dro y cam cychwynnol o brosesu apeliadau, yn y categori hwn; ac Asiantaeth y Swyddfa Briso yw'r corff sydd â'r cyfrifoldeb dros y materion hyn yng Nghymru a Lloegr.

Wrth roi sylw i'r mater hwn, bwriad Llywodraeth Cymru oedd ceisio sicrhau bod dulliau gweithredu cydweithredol ar waith ganddi hi a Llywodraeth y DU, a buom yn galw'n aml ar Lywodraeth y DU i gyfathrebu a chydweithio er mwyn cyrraedd consensws ar ddull gweithredu addas. Yn anffodus, nid yw wedi bod yn bosibl sicrhau dull gweithredu cydlynus, ac ni chafodd Llywodraeth Cymru wybod am fwriad Llywodraeth y DU nes bod y cyhoeddiadau wedi cael eu gwneud. At hynny, ychydig o ddata Asiantaeth y Swyddfa Briso sydd wedi'u rhannu, ac mae hynny wedi cael effaith negyddol ar y gwaith o ddatblygu polisiau priodol ac amserol i Gymru.

Mae polisi Cymru ar faterion datganoledig yn cael ei lunio yng Nghymru, er y cydnabyddir hefyd bod natur ryng-gysylltiedig rhai materion polisi a gweithredu ar draws Cymru a Lloegr yn golygu ei bod weithiau'n well mabwysiadu dull cyson, er budd sicrwydd. Yn yr achos hwn, oherwydd yr effaith ar fusnesau ac eraill sy'n talu ardrethi yng Nghymru ac yn Lloegr, a'r ffaith bod cymorth busnes dilynol yn gysylltiedig â phasio'r Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwysio Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd) (Y Bil), byddai dull gweithredu cydnaws yn ei gwneud yn haws defnyddio ysgogiadau ariannol sydd, i raddau llai, yn rhan o'r arfau datganoledig sydd ar gael i Lywodraeth Cymru.

Rwyf hefyd wedi nodi sylwadau'r Pwyllgor ynghylch amseriad gosod a chychwyn y Rheoliadau hyn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ar 23 Tachwedd, cynhelir dadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil. Byddaf yn sicrhau bod cyfeiriad yn cael ei wneud at y Rheoliadau fel rhan o'r ddadl, er mwyn i'r Aelodau gael cyd-destun y mater dan sylw.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Rebecca Evans." The signature is written in a cursive, flowing style.

Rebecca Evans AS/MS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Rebecca Evans AS
Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

16 Tachwedd 2021

Annwyl Rebecca

Rheoliadau Priso ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) 2021

Yn ein cyfarfod brynhawn ddoe, fe wnaethom ystyried Rheoliadau Priso ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) 2021 (y Rheoliadau) ac ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwynt adrodd rhinweddau cyntaf yn ein hadroddiad drafft, sydd bellach wedi cael ei osod.

Fel y gwyddoch, rydym wedi gofyn am y rheswm dros osod y Rheoliadau gerbron y Senedd ar 1 Tachwedd 2021, gan nodi y cafodd y rheoliadau cyfatebol sy'n gymwys i Loegr (Rheoliadau Priso ar gyfer Ardrethu (Coronafeirws) (Lloegr) 2021 (OS 2021/398)) eu gosod gerbron Senedd y DU ar 25 Mawrth 2021, pan ddaethant i rym, sef dros saith mis cyn y Rheoliadau pwnc.

Mae'r ymateb yn codi dau fater sydd, fe gredwn, yn gofyn am ystyriaeth bellach.

Yn gyntaf, rydych chi'n nodi:

"Gosodwyd Rheoliadau Priso ar gyfer Ardrethu (Coronafeirws) (Lloegr) 2021 (O.S.2021/398)) (Rheoliadau LIDU) gerbron Senedd y DU, a daethant i rym, ar 25 Mawrth. Cafodd Rheoliadau LIDU eu gosod heb drafod ymlaen llaw gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, roedd yr amseru o ran gwneud Rheoliadau LIDU yn golygu nad oedd yn bosibl datblygu polisi neu reoliadau a oedd yn gymwys i Gymru ar unwaith, gan fod cyfnod cyn-etholiadol Senedd Cymru yn weithredol rhwng 25 Mawrth a 6 Mai."

Mae'r ymateb hwn yn awgrymu bod amseriad a chynnwys polisi a rheoliadau Llywodraeth y DU ar gyfer Lloegr yn gweithredu fel trothwy i Lywodraeth Cymru ystyried sut y gallai a/neu sut y dylai ddatblygu polisi a chyfraith mewn maes datganoledig yng Nghymru. Byddem yn ddiolchgar pe gallech eglurhad pellach ynghylch hyn.

Yn ail, mae'r ymateb i'n hadroddiad ar y Rheoliadau yn cau gyda'r datganiad a ganlyn:

"Yn dilyn canlyniad yr ymgynghoriad, lluniwyd fersiwn derfynol o'r rheoliadau drafft ac fe'u gosodwyd ar y dyddiad cynharaf posibl. Digwyddodd hyn ar 1 Tachwedd, gan yr ystyrid ei bod yn arfer gwael gosod y rheoliadau yr wythnos flaenorol, hy, yn ystod y toriad."

Rwy'n cydnabod bod bwriad da y tu ôl i ddymuniad i beidio â gosod rheoliadau gerbron y Senedd mewn wythnos pan na chynhelir Pwyllgorau na Chyfarfod Llawn, ond nid digwyddiad anghyffredin yw'r ffaith bod Gweinidogion Cymru yn gwneud felly. Yn wir, yn yr wythnos benodol yn ystod y toriad dan sylw, cafodd Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2021 eu gosod gerbron y Senedd yn eich enw chi. Hefyd, yn ystod yr un wythnos, gosododd Gweinidogion Cymru bum set o reoliadau ar amryw faterion eraill. Byddem yn awgrymu, lle mae "brys" a "risg uniongyrchol" yn cael eu defnyddio i gyfiawnhau natur weddol eithafol yr achos hwn o dorri'r rheol 21 diwrnod (gan y cafodd y Rheoliadau eu gosod ychydig dros saith awr cyn iddynt ddod i rym), y byddai'n fwy priodol pe bai'r Rheoliadau wedi cael eu gosod cyn gynted â'u bod wedi cael eu drafftio, eu llofnodi a'u cofrestru. O weithredu yn y modd hwn, gyda llaw, byddai'r bobl y mae'r Rheoliadau'n effeithio arnynt wedi cael mwy nag ychydig o oriau o rybudd fod y gyfraith ar fin newid. Gobeithiwn y byddwch yn cadw hyn mewn cof yn y dyfodol.

Mae eich ymateb ynglŷn â'r Rheoliadau yn berthnasol i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwysio Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd), a gobeithio y byddwch yn tynnu sylw at y Rheoliadau yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar gynig i gydsynio i'r darpariaethau perthnasol yn y Bil.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd



Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Ein cyf/Our ref: MA/RE/2314/21

Aelodau'r Senedd

22 Tachwedd 2021

Annwyl gydweithiwr

Y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwysu Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd) 2021

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi rhagor o fanylion cyn y ddaidl yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Tachwedd ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwysu Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd). Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a Phwyllgor yr Economi, Materion Gwledig a Masnach am ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil.

Effaith y darpariaethau sy'n ymwneud â Chymru yw atal apelau ardrethi annomestig sy'n cyfeirio at Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau yn seiliedig ar faterion sy'n ymwneud â Covid-19 (apelau NPA Covid-19). Mae'r darpariaethau yn gymwys ymlaen llaw ac yn ôl-weithredol: dim ond drwy ddefnyddio deddfwriaeth sylfaenol y gellir cyflawni agwedd ôl-weithredol y darpariaethau.

Ar 25 Mawrth gosododd Llywodraeth y DU Reoliadau Priso ar gyfer Ardrethu (Coronafeirws) (Lloegr) 2021 (Rheoliadau Llywodraeth y DU) gerbron Senedd y DU a ddaeth i rym yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw. Effaith Rheoliadau Llywodraeth y DU yw atal apelau NPA Covid-19 yn Lloegr ar ôl 25 Mawrth. Cyn cyflwyno Rheoliadau Llywodraeth y DU, roedd fy swyddogion yn trafod gyda chymheiriaid yn Llywodraeth y DU i gael gwybodaeth am effaith y pandemig ar apelau ardrethi annomestig yng Nghymru a'r opsiynau ar gyfer rheoli'r effaith hon. Mae hwn yn faes lle mae eglurder a chysondeb a dull gweithredu clir yn bwysig i dalwyr ardrethi, o ystyried natur gydgysylltiedig y system ardrethu annomestig yng Nghymru a Lloegr: yn benodol, mae camau cychwynol y systemau apelio yn y ddwy wlad yn cael eu rheoli gan Asiantaeth y Swyddfa Briso.

Cyfngedig oedd yr wybodaeth oedd ar gael ar gyfer Gymru cyn diwedd mis Mawrth, ac o ystyried yr amseru nid oedd yn bosibl i bolisi a rheoliadau sy'n gymwys i Gymru gael eu datblygu'n llawn yn ystod cyfnod cyn yr etholiad y Senedd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh and responses to it received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cyflwynwyd Bil Ardrethu (Coronafeirws) a Chyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd) Llywodraeth y DU (y Bil) ar 12 Mai. Ni roddwyd cyfle ymlaen llaw i Lywodraeth Cymru ystyried a ddylid cynnwys darpariaethau ar gyfer Cymru wrth eu cyflwyno.

Yng ngoleuni'r wybodaeth oedd ar gael bryd hynny, ystyriwyd opsiynau ar gyfer rheoli effaith apelau NPA Covid-19. Rhoddwyd y flaenoriaeth gychwynol i geisio cynnwys darpariaethau sy'n gymwys i Gymru yn y Bil. Byddai'r darpariaethau hyn, er eu bod yn cael effaith ymlaen llaw, hefyd yn cael effaith ôl-weithredol, na ellid eu cyflawni drwy ddefnyddio is-ddeddfwriaeth.

Ar 7 Gorffennaf, [cyhoeddais](#) ein cynlluniau ar gyfer apelau NPA Covid-19, gan nodi y byddem yn ceisio cynnwys darpariaethau yn y Bil a mynd ar drywydd is-ddeddfwriaeth i atal apelau yn y dyfodol tra bod y Bil yn mynd rhagddo. Yn dilyn 7 Gorffennaf, cysylltodd fy swyddogion â chymheiriaid Llywodraeth y DU i osod sylfeini ar gyfer cynnwys darpariaethau i Gymru yn y Bil.

Yn dilyn hynny, ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar y pryd ar 27 Gorffennaf yn gofyn am gynnwys darpariaethau perthnasol i Gymru yn y Bil. Cafwyd ymateb ar 3 Medi gan y Gweinidog Twf Rhanbarthol a Llywodraeth Leol ar y pryd, yn cadarnhau y byddai darpariaethau perthnasol ar gyfer Cymru yn cael eu cyflwyno fel gwelliant yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin ar 9 Medi.

Ochr yn ochr â datblygu darpariaethau i'w cynnwys yn y Bil, gwnaethom hefyd gydnabod yr angen i fynd ar drywydd gwneud rheoliadau i ddiogelu cyllid cyhoeddus tra bod y Bil yn mynd rhagddo drwy Senedd y DU ac fel mesur lliniaru yn erbyn y risg y bydd y Bil yn methu.

Er na wnaeth Llywodraeth y DU ymgynghori wrth wneud ei rheoliadau, roeddem o'r farn ei bod yn briodol cynnal ymgynghoriad technegol ar ei rheoliadau drafft. Daeth yr ymgynghoriad chwe wythnos i ben ar 27 Medi, a chyhoeddwyd [crynodedb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad](#) ar 21 Hydref.

Yn dilyn canlyniad yr ymgynghoriad, cafodd y rheoliadau drafft eu cwblhau a'u gosod ar y dyddiad cynharaf posibl. Gosodwyd [Rheoliadau Priso ar gyfer Ardrethu \(Cymru\) \(Coronafeirws\) 2021](#) (Rheoliadau Cymru) ar 1 Tachwedd a daethant i rym yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw. O 1 Tachwedd, mae Rheoliadau Cymru yn atal apelau sy'n ceisio dibynnu ar faterion sy'n ymwneud â Covid-19. Nid oes data ar gael eto i ddangos effaith lawn Rheoliadau Cymru: mae hyn yn cynnwys data am y risg i gyllid cyhoeddus Cymru a allai fod wedi digwydd rhwng 25 Mawrth, pan osodwyd rheoliadau ar gyfer Lloegr, ac 1 Tachwedd, pan wnaed Rheoliadau Cymru. Fodd bynnag, mae Rheoliadau Cymru wedi diogelu rhag unrhyw apelau perthnasol a gyflwynwyd ers 1 Tachwedd a byddant yn parhau i wneud hynny tra bo'r Bil yn mynd drwy'r Senedd neu os bydd y Bil yn methu.

Effaith y darpariaethau yn y Bil yw disodli Rheoliadau Llywodraeth y DU a Rheoliadau Cymru, gyda chymal 1(9) yn y Bil fel y'i cyflwynwyd yn dirymu Rheoliadau Llywodraeth y DU. O ganlyniad i gyfyngiadau amseru, ni fu'n bosibl cynnwys cymal yn y Bil sy'n dirymu Rheoliadau Cymru. Bwriadaf osod rheoliadau pellach i ddirymu Rheoliadau Cymru, a fydd yn cyd-fynd ag amseriad y Cydsyniad Brenhinol, os bydd y Bil yn parhau i fynd rhagddo.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Rebecca Evans". The signature is written in a cursive, flowing style.

Rebecca Evans AS/MS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Ein cyf/Our ref MA-LG-3776-21

Huw Irranca-Davies AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth,
Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

24 Tachwedd 2021

Annwyl Huw,

Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir)

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir).

Rwyf wedi nodi fy ymateb i ddau argymhelliad y Pwyllgor isod:

Argymhelliad 1. Dylai'r Gweinidog, cyn gynted ag y bodd a chyn y ddadl yn y Senedd ar y cynnig cydsyniad perthnasol, ddarparu diweddariad i'r Pwyllgor ar y trafodaethau a gafwyd â Llywodraeth y DU am yr eithriad angenrheidiol rhag y cyfyngiadau perthnasol yn Atodlen 7B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Ymateb: Yn dilyn trafodaethau â Llywodraeth y DU, cadarnhaodd Defra ei gytundeb i wneud addasiadau i'r trefniadau caniatáu. Mae gwelliannau'r Llywodraeth i'r Bil wedi'u cyflwyno sy'n cynnwys darparu eithriad rhag yr angen am ganiatâd gan Weinidog y Goron yn y dyfodol mewn perthynas â'r trefniadau caniatáu yn Atodlen 7B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog, cyn gynted ag y bodd a chyn y ddadl yn y Senedd ar y cynnig cydsyniad perthnasol, ddarparu rhagor o fanylion i'r Pwyllgor ar ddadansoddiad Llywodraeth Cymru o gymal 46 ac o ystyried bwriad Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r pwerau yn y cymal i wneud rheoliadau at ddiben bodloni rhwymedigaethau Sefydliad Masnach y Byd; cadarnhewch p'un a oedd y Gweinidog yn ymwybodol o gynigion Llywodraeth y DU o ran hyn ac a yw'r Gweinidog yn cefnogi'r dull gweithredu hwn.

Ymateb: Mae fy swyddogion wedi trafod hyn â Defra ac rwy'n fodlon â'r dull gweithredu arfaethedig. Bydd y mesurau yng nghymal 46 yn effeithio'n bennaf ar fasnachu cŵn bach yn anghyfreithlon. Mae'n bosibl y bydd effeithiau ehangach ar fasnachu anifeiliaid anwes yn gyfreithlon oherwydd gallai'r mesurau hyn o bosibl fod yn gymwys i'r broses o fewnforio cŵn yn fasnachol. Fodd bynnag, caiff cynigion i gyflwyno mesurau mewn rheoliadau yn y dyfodol eu hystyried yn fanylach ar y cam hwnnw. Byddai angen ystyried asesiad effaith, a fyddai'n cynnwys arfarniad o unrhyw oblygiadau Sefydliad Masnach y Byd, o ran y cynigion a fanylir a chynhelir hyn ar lefel y DU cyn cyflwyno unrhyw gyfyngiadau drwy reoliadau. Yn ogystal, byddai cynigion mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth yn destun ymgynghoriad a/neu ymgynghoriad pellach â rhanddeiliaid cyn cael eu cyflwyno.

Hyderaf fod yr uchod o gymorth i chi.

Cofion,

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive, flowing style.

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



John Griffiths AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru

22 Tachwedd 2021

Annwyl John,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir)

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Tachwedd yn gofyn am ddiweddariad pellach ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir).

Yng ngoleuni'ch sylwadau yn eich llythyr, rwy'n bwriadu gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol erbyn 26 Tachwedd. Bydd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwnnw'n ymneud yn unig â'r gwelliannau a wnaed i'r Bil yn ystod ei daith drwy Dŷ'r Arglwyddi. Rydym yn cynnig cynnal y ddatl ynghylch cydsyniad ar 14 Rhagfyr, ond rydym yn cydnabod y bydd hyn yn cyfyngu ar y cyfnod craffu. Felly, byddwn yn gofyn i'r Pwyllgor Busnes ystyried estyn y terfyn amser ar gyfer adrodd mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 26 Mai (a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol wedi hynny) i 9 Rhagfyr.

Rwy'n dal i ragweld y bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gosod gwelliannau pellach i'r Bil cyn y Cam Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin, ond nid wyf yn gwybod eto pryd fydd hynny. Mae'n bur annhebyg, er hynny, y bydd hyn yn digwydd cyn yr wythnos sy'n dechrau ar 29 Tachwedd.

Byddaf yn gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol arall mewn perthynas â'r gwelliannau pellach disgwylidig cyn gynted â phosibl ar ôl iddynt gael eu gosod, ond heb amserlen wedi'i chadarnhau ni allaf ymrwymo i ddyddiad pendant.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink that reads "Julie James". The signature is written in a cursive, flowing style.

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Julie James AS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd

Llywodraeth Cymru

18 Tachwedd 2021

Annwyl Julie

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir)

Yn dilyn eich llythyr dyddiedig 11 Tachwedd, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu diweddariad pellach ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir).

Gan nad yw'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol wedi'i osod eto, rydym yn pryderu na fydd gennym ddigon o amser i'w ystyried cyn adrodd. Y cyfarfod nesaf a drefnwyd o ran ein Pwyllgor yw 1 Rhagfyr, hynny yw, y diwrnod cyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd, sef 2 Rhagfyr. Nid yw'r amserlen hon yn caniatáu gwaith craffu ystyrllon.

Er mwyn cynllunio dull y Pwyllgor o ystyried ac adrodd ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol, byddem yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau'r dyddiad yr ydych yn disgwyl gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol.


Byddem hefyd yn ddiolchgar pe gallech osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol mewn perthynas â'r gwelliannau a wnaed i'r Bil ar 20 Gorffennaf cyn gynted ag y bo modd. Fel y gwyddoch, mae rheol sefydlog 29.2 (iii) yn nodi y dylai'r Llywodraeth osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol fel rheol ddim hwyrach na phythefnos ar ôl cyflwyno unrhyw welliannau perthnasol. Mae bron i bedwar mis bellach wedi mynd heibio a disgwylir i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol ychydig cyn y Nadolig. Yn eich llythyr dyddiedig 1 Hydref, dywedasochn y byddai'n fwy defnyddiol cyhoeddi Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol unwaith y bydd yr holl welliannau wedi'u cyflwyno.

Fodd bynnag, mae'r penderfyniad i oedi cyn gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol wedi cyfyngu ar ein gallu i graffu ar y darpariaethau perthnasol mewn modd amserol. O gofio'r dyddiad cau hynod dynn ar gyfer adrodd, rydym ni o'r farn y byddai'n fwy defnyddiol i'r Aelodau pe baech yn cyhoeddi Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn ymwneud â'r gwelliannau a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf cyn gynted â phosibl.

Byddwn yn gwerthfawrogi cael ymateb erbyn 22 Tachwedd.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir



John Griffiths AS

Cadeirydd

Cc: Huw Irranca-Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Huw Irranca-Davies AS
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

23 Tachwedd 2021

Annwyl Huw,

Rwyf yn ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr 9 Tachwedd ynghylch Confensiwn y DU/y Swistir ar gydgyssylltu nawdd cymdeithasol.

Efallai y bydd yn helpu os byddaf yn egluro'n gyntaf bod cytundebau rhyngwladol yn cael eu cadw i Lywodraeth y DU a'i bod yn ofynnol i'r Gweinyddiaethau Datganoledig eu gweithredu a'u parchu ni waeth beth fo'r goblygiadau o ran cymhwysedd datganoledig neu i gyrrff Cymru.

Rwyf wedi mynd i'r afael â'ch cwestiynau penodol isod:

Asesiad Llywodraeth Cymru o oblygiadau'r cytundeb ar gyfer cymhwysedd datganoledig

Mae'r cytundeb yn ei gwneud yn ofynnol darparu gofal iechyd i ymwelwyr o'r Swistir i Gymru mewn perthynas â thriniaeth feddygol angenrheidiol frys a thriniaeth sydd wedi'i chynllunio ymlaen llaw. Rôl Byrddau Iechyd Lleol Cymru fydd cyflawni hyn. Goblygiadau'r cytundeb ar gymhwysedd datganoledig yw ei bod yn ofynnol i Lywodraeth Cymru weithredu a pharchu'r cytundeb ac i Fyrdau Iechyd Lleol ddarparu gofal iechyd yn unol â'i thelerau.

Er hynny, hoffwn egluro hefyd fod y Swistir, cyn inni ymadael â'r UE, yn rhan o'r cytundeb gofal iechyd cyfatebol a oedd ar waith gyda gwledydd yr UE ac EFTA. Mae'r trefniadau gofal iechyd o dan Gonfensiwn newydd y Swistir yr un peth yn fras â chytundeb gofal iechyd cyfatebol blaenorol yr UE (cyn inni ymadael â'r UE) a'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu/Protocol Nawdd Cymdeithasol newydd rhwng Llywodraeth y DU a'r UE. Nid

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

oes unrhyw ofynion newydd yn cael eu rhoi ar Fyrddau Iechyd Lleol Cymru o dan Gonfensiwn y Swistir (neu Gytundeb Masnach a Chydweithredu'r UE).

Yr hyn y mae'n rhaid ei gofio hefyd yw mai cytundeb gofal iechyd cyfatebol yw hwn sy'n golygu bod trigolion Cymru yn gallu cael triniaeth y mae ei hangen ar frys a thriniaeth sydd wedi'i chynllunio ymlaen llaw yn y Swistir am ddim gyda'r costau'n cael eu talu gan Lywodraeth y DU.

A yw Llywodraeth Cymru yn cytuno ag asesiad Llywodraeth y DU o ba faterion sydd wedi'u cadw'n ôl a pha faterion sydd wedi'u datganoli yn y cytundeb

Mae Llywodraeth y DU wedi cydnabod yn y Memorandwm Esboniadol ar y Confensiwn bod negodi cytundebau gofal iechyd cyfatebol a lles gwladolion y DU dramor yn faterion a gedwir yn ôl ond bod rhai o'r meysydd y mae cytundebau gofal iechyd cyfatebol yn eu cwmpasu yn feysydd wedi'u datganoli gan gynnwys gofal iechyd domestig ac adennill costau ymwelwyr tramor. Gan mai mater datganoledig yw codi tâl ar ymwelwyr tramor, mae Llywodraeth y DU wedi cydnabod hefyd y bydd y Gweinyddiaethau Datganoledig yn sicrhau bod yr agweddau hyn yn cael eu gweithredu yn unol â hynny.

Mae paragraff 10(1) o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru yn cadw "cysylltiadau rhyngwladol" (sy'n cynnwys cysylltiadau â thiriogaethau, gwledydd a sefydliadau rhyngwladol y tu allan i'r Deyrnas Unedig) i Senedd y DU.

Yn unol â pharagraff 10(3) o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru, mae parchu a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol a chynorthwyo un o Weinidogion y Goron mewn perthynas â chysylltiadau rhyngwladol (i'r graddau y maent yn ymwneud â materion datganoledig) wedi'u llunio o faes cysylltiadau rhyngwladol. Mater datganoledig yw iechyd, sy'n cynnwys adennill costau ymwelwyr tramor mewn perthynas â Chymru. At hynny, mae rhoi effaith i gytundebau gofal iechyd sy'n ymwneud â gofal iechyd a ddarperir yng Nghymru o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

Rwyf yn cytuno, felly, mai mater i'r DU, yn hytrach na'r Gweinyddiaethau Datganoledig, yw ymrwymo i'r Confensiwn, ac rwyf yn fodlon ar safbwynt Llywodraeth y DU ynghylch goblygiadau'r Confensiwn mewn perthynas â materion datganoledig yng Nghymru.

A fydd Llywodraeth Cymru wedi'i chynrychioli yn y mecanweithiau llywodraethu newydd rhwng y DU a'r Swistir a grëwyd gan y cytundeb, yn enwedig mewn perthynas â chymryd rhan yn y Cydbwyllgor Gweinyddol pan gaiff materion datganoledig eu trafod

Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau bod y trefniadau cynrychioli ynghylch y Llywodraethau Datganoledig a'r mecanweithiau llywodraethu o dan Gonfensiwn y Swistir yn adlewyrchu'r rhai o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a'r Protocol ar Gydgysylltu Nawdd Cymdeithasol. Mae hyn yn golygu y bydd Llywodraeth ganolog y DU yn cynrychioli'r DU yn y Cyd-bwyllgor Gweinyddol o dan y Confensiwn, ond bod gallu i wahodd cynrychiolwyr o gyfarfodydd Cyd-bwyllgor Gweinyddol y Llywodraethau Datganoledig fel y bo'n briodol ac os oes angen, er enghraifft pe bai mater yn cael ei drafod a oedd o ddiddordeb arbennig neu ar faes darpariaeth ddatganoledig megis triniaeth wedi'i chynllunio.

Pa gynlluniau sydd ar waith i Lywodraeth Cymru weithredu'r cytundeb, os o gwbl, gan gynnwys amserlenni

Mae Cytundebau Rhyngwladol a wneir gan Lywodraeth y DU yn rhwymo'r DU gyfan ac mae'n ofynnol i'r Gweinyddiaethau Datganoledig rhoi ar waith yn unol ag unrhyw

amserlenni yn y Cytundeb. Daeth Confensiwn y Swistir i rym ar 1 Tachwedd 2021 ac mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol Cymru ei roi ar waith o'r dyddiad hwnnw. Hysbyswyd y Byrddau Iechyd Lleol am y cytundeb ac mae'r holl drefniadau angenrheidiol (er enghraifft canllawiau a ffurflenni cais ar gyfer trefniadau triniaeth sydd wedi'i chynllunio ymlaen llaw, trefniadau gweinyddol ac ad-dalu gydag Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG) wedi'u hymgorffori o fewn y prosesau sydd eisoes ar waith ar gyfer Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r UE.

Er hynny, bydd angen inni adlewyrchu'r cytundeb o fewn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 sy'n nodi'r eithriadau ar gyfer codi tâl ar ymwelwyr tramor, a byddwn yn gwneud diwygiadau i'r rheoliadau hynny mewn perthynas â hyn cyn gynted â phosibl.

A yw Llywodraeth Cymru yn fodlon â lefel ac amlder yr ymgynghori â Llywodraeth y DU yn ystod y trafodaethau ar y cytundeb hwn, fel y disgrifir yn y Memorandwm Esboniadol

Er i Lywodraeth y DU hysbysu swyddogion Llywodraeth Cymru am ddatblygiad a chynnydd y Confensiwn ac amseriad tebygol ei lofnodi a'i roi ar waith, nid oedd Llywodraeth Cymru yn rhan o unrhyw rai o'r trafodaethau gwirioneddol â Llywodraeth y Swistir. Er fy mod yn cydnabod nad yw hon yn sefyllfa ddelfrydol, mae cytundebau rhyngwladol yn cael eu cadw i Lywodraeth y DU ac at ei gilydd dilynwyd y Memorandwm Cytundeb sydd ar waith gyda Llywodraeth y DU i gefnogi gofynion ymgynghori Deddf Gofal Iechyd (Trefniadau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir) 2019. Ac yn yr achos hwn, roedd cytundeb rhwng Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig y dylai unrhyw gytundeb â'r Swistir geisio atgynhyrchu'r trefniadau yn fras o dan Gytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU/UE yn sgil Ymadael â'r UE (a'r trefniadau gyda'r Swistir cyn Ymadael â'r UE).

Hyderaf y bydd yr ymateb hwn o gymorth wrth i'r Pwyllgor ystyried y Confensiwn.

Yn gywir



MARK DRAKEFORD

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS

Prif Weinidog Cymru

9 Tachwedd 2021

Annwyl Mark

Y Deyrnas Unedig/Swistir: Confensiwn ar gydgysylltu nawdd cymdeithasol

Fel y gwyddoch, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am graffu ar gytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd, yn ogystal â monitro'r cytundebau hyn.

Yn ein cyfarfod ar 1 Tachwedd 2021, gwnaethom drafod y cytundeb a ganlyn: Y Deyrnas Unedig/Swistir: Confensiwn ar gydgysylltu nawdd cymdeithasol.

Mae'r cytundeb yn sefydlu trefniadau newydd rhwng y DU a'r Swistir i gydgysylltu nawdd cymdeithasol ar ôl Brexit mewn perthynas â rhai budd-daliadau, gan gynnwys mynediad at ofal iechyd cilyddol.

Yn ystod ein trafodaethau, gwnaethom gytuno i ysgrifennu atoch i ofyn am y wybodaeth a ganlyn:

- asesiad Llywodraeth Cymru o oblygiadau'r cytundeb ar gyfer cymhwysedd datganoledig;
- a yw Llywodraeth Cymru yn cytuno ag asesiad Llywodraeth y DU o ba faterion sydd wedi'u cadw'n ôl a pha faterion sydd wedi'u datganoli yn y cytundeb;
- a fydd Llywodraeth Cymru wedi'i chynrychioli yn y mecanweithiau llywodraethu newydd rhwng y DU a'r Swistir a grëwyd gan y cytundeb, yn enwedig mewn perthynas â chymryd rhan yn y Cydbwyllgor Gweinyddol pan gaiff materion datganoledig eu trafod;
- pa gynlluniau sydd ar waith i Lywodraeth Cymru weithredu'r cytundeb, os o gwbl, gan gynnwys amserlenni;

- a yw Llywodraeth Cymru yn fodlon â lefel ac amllder yr ymgynghori â Llywodraeth y DU yn ystod y trafodaethau ar y cytundeb hwn, fel y disgrifir yn y Memorandwm Esboniadol.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 23 Tachwedd 2021.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd

